4.125

X20 5220958

# LLONGYFARCHIAD

AR DDYFODIAD

# RHYS WILLIAMS, YSW.,

I'W OEDRAN, SEF AR YR 20fed O HYDREF, 1886,

*Pan yr anrhegir ef gan ei edmygwyr gyda Chwpan Arian, gwerth 60p.*

---

ALAW—"NOS GALAN."

---

I.

CLYWCH! pa beth yw rhu'r magnelau
Sydd yn rhwygo y cymylau
O Benbych, prif deyrn y Rhondda—
Dros dir a môr eu swn ymleda.

II.

Hithau'r *Lai* sydd yn clustfeinio,
Nid yw'n foddlon myned heibio
I lawenydd Miskin Manor,
'Tlysaf fan o fewn ein goror.

III.

Hedd i'w 'r dydd i'w anrhydeddu
'*Tifedd* Miskin, Blodau Cymru;
A pha 'difedd geir yn Ngwalia
O'r ddau ty o waed coch cyfa'?

IV.

Hanu mae o uchel achau
Aberpergwm,* bri yr oesau;
Lle'r Iaith Wen sydd ar bob gwefus
Fel y diliau mêl, yn felus.

V.

O dy ei dad, ein doethwych Farnwr,
Ni fedd Gwalia fwy boneddwr,
Ei fywyd sydd yn llawn o urddas,
Gwna lenwi uchel swyddau'r deyrnas.

VI.

Yn ôl eu traed boed i'r etifedd
Gywir rodio i anrhydedd;
Ein *Iaith*, ein gwlad, a'u gwâr ddefodau
Hyd fedd danio ei serchiadau.

VII.

Yr *Arian Gwpan*, i'r oll oesau,
Ddengys deimlad ein calonau;
Nid gwên farwol, ar y wefus
*Cwpan*, ddengys ein ewyllys.

VIII.

Na foed lle byth a'i boddlona,
*Leys*, na *Llan*, na'r palas gwycha';
Ei uchel nod f'o ein Senedd-dy,
Yno i ddadleu hawliau Cymru.

IX.

Hir oes, iechyd, heb un gelyn,
Ond pob llwydd i 'Difedd Miskin;
Llaw ein *Ior* f'o 'n dyner dano,
'R hwn mae Gwalia yn anwylo.

* Lle genedigol ei dadcu, o ochr ei fam.

Tongwynlais, ger Caerdydd.

G. BRYCHEINIOG.